



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y Cynllun Bathodyn Glas

Photograph of the card holder
Ffotograff deiliad y cerdyn

This card entitles the holder to the special local parking facilities available in the Member State concerned. When in use, the card is to be displayed at the front of the vehicle in such a way that the front of the card is clearly visible for checking purposes.
Mae'r cerdyn hwn yn rhoi hawl i'r deiliad ddefnyddio'r cyfleusterau parcio lleol arbennig sydd ar gael yn yr Aelod-wladwriaeth o dan sylw. Wrth ei ddefnyddio, rhaid dangos y cerdyn ym mhen blaen y cerbyd fel bod blaen y cerdyn i'w weld yn glir i gael ei archwilio.

MISUSE OF THIS CARD MAY CONSTITUTE A CRIMINAL OFFENCE
GALL CAMDDEFNYDDIO'R CERDYN HWN FOD YN DBAMGWYDD TROSEDDOL

Surname:
Cyfenw:

Forename:
Enw blaen:

Signature:
Llofnod:
(or other authorised mark)
(neu farc awdurdodedig arall)

Date of expiry:
Dyddiad y daw i ben:

Issued by:
Rhoddwyd gan:

Serial No:
Rhif Cyfresol:

Parking Card for people with disabilities
Cerdyn Parcio pobl ag anableddau
Parkeringskort
Kárta osoba s pomoci
Tarjeta de estacionamiento
Parkausweis
Contrassegno di parcheggio
Parkeerkaart
Cartão de estacionamento
Pysäköntilästä
Parkeringsstillstånd
Carte de stationnement

UK

EUROPEAN COMMUNITIES
MODEL
MODEL Y CYMUNEDAU
EWROPEAIDD

Consesiynau parcio i
bobl anabl a phobl ddall

**Mae'r daflen hon ar gael ar ffurf print bras,
Braille a thâp sain. Cysylltwch â 029 2082
6501 neu gweler Tudalen 16.**

Gallwch gael copïau ychwanegol o'r daflen hon drwy ysgrifennu i'r
cyfeiriad canlynol:

Y Tîm Teithio Cynaliadwy
Yr Is-Adran Polisi Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Neu drwy anfon e-bost at Blue-badge@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 0 7504 3482 1

Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
G/499/05-06

© Hawlfraint y Goron 2005

Rhagfyr 2005

Mae'r daflen gynghori hon ynghylch y Cynllun Bathodyn Glas yn egluro:

beth yw'r Cynllun a phwy all fod yn gymwys i gael bathodyn	4
sut i wneud cais am fathodyn	5
ble nad yw'r Cynllun yn gweithredu	5-6
trefniadau yng Nghanol Llundain	6-7
mannau ar y stryd lle gellir defnyddio'r bathodyn	8
ble na ddylech barcio	9 – 10
y sefyllfa o ran clampio olwynion a mynd â cheir ymaith	11
sut y dylid arddangos y bathodyn	11
cyfyngiadau ar fathodynau a ddefnyddir gan sefydliadau	11
pryd mae'n rhaid cael disg parcio/cloc	12
cyfrifoldebau deiliad y bathodyn	13
y cosbau am gamddefnyddio Bathodyn Glas	14
y gosb am gamddefnyddio ardal barcio a neilltuwyd ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas	14
pa gonsesiynau eraill a all fod ar gael i ddeiliaid Bathodyn Glas	15
arwyddion traffig newydd	15
pa rif i'w ffonio os oes gennych ymholiadau cyffredinol ynghylch y Cynllun	16

1 BETH YW'R CYNLLUN BATHODYN GLAS?

Mae'r Cynllun Bathodyn Glas yn cynnig trefn genedlaethol o gonsesiynau parcio ar gyfer pobl sydd ag anawsterau cerdded difrifol, boed yn teithio fel gyrwyr neu fel cyd-deithwyr. Mae'r Cynllun hefyd yn berthnasol i bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall a phobl sydd ag anableddau difrifol iawn yn eu breichiau ac sy'n gyrru cerbyd yn rheolaidd ond na allant droi'r llyw â llaw. Mae'n caniatáu i ddeiliad y bathodyn barcio'n agos at y man y maent eisiau ei gyrraedd, ond nid yw'r consesiynau cenedlaethol ond yn berthnasol ar gyfer parcio **ar y stryd**. Ceir mwy o fanylion am hyn yn adran 9 o'r daflen hon. Gallai consesiynau eraill fod ar gael i ddeiliaid y bathodyn yn ogystal – gweler adran 17.

2

I bob pwrpas mae'r Cynllun Bathodyn Glas yn cymryd lle'r Cynllun Bathodyn Oren. Cafodd ei gyflwyno yng Nghymru ar 1 Gorffennaf 2000. Nid yw bathodynnau Oren bellach yn ddilys.

3 GALLWCH GAEL BATHODYN OS YDYCH CHI:

- yn derbyn y gyfradd uchaf o elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl
- yn derbyn Tâl Atodol am Symudedd i Bensiynwyr Rhyfel
- yn defnyddio cerbyd a ddarperir gan Adran Iechyd y Llywodraeth ar gyfer pobl anabl
- wedi eich cofrestru fel person dall
- yn dioddef o anabledd difrifol yn y ddwy fraich ac yn gyrru cerbyd yn rheolaidd, ond yn methu â defnyddio'ch dwylo i droi'r llyw ar gerbyd hyd yn oed os oes bwlyn wedi ei osod ar y llyw sydd arno
- yn dioddef o anabledd parhaol a sylweddol sy'n golygu na allwch chi gerdded neu eich bod yn cael anhawster mawr i gerdded. Os felly, efallai y bydd gofyn i chi ateb cyfres o gwestiynau er mwyn helpu'r awdurdod lleol i benderfynu a ydych yn gymwys i gael bathodyn. Ni fydd pobl sydd ag anhwylder seicolegol yn gymwys, fel arfer, i dderbyn bathodyn

oni bai bod yr anhwylder yn peri anhawster mawr iddynt wrth gerdded, a hynny'n barhaus yn hytrach nag yn ysbeidiol.

(Noder: Nid yw plant o dan ddwy oed yn gymwys i gael bathodyn oherwydd nad oes disgwyl fel rheol iddynt gerdded yn annibynnol. Mae'n bosib y gall mudiadau sy'n gofalu am bobl anabl sy'n bodloni un neu ragor o'r meini prawf uchod fod yn gymwys i gael bathodyn, ond mater i'r awdurdod lleol yn unig benderfynu arno ydyw a rhaid cadw'n fanwl at delerau defnyddio bathodyn o'r fath – gweler pwynt 3 yn adran 11.)

4 SUT I WNEUD CAIS

Os credwch y gallech fod yn gymwys i dderbyn bathodyn dylech gysylltu ag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol eich cyngor lleol.

Bydd eich cyngor lleol yn penderfynu a ydych chi'n gymwys i dderbyn bathodyn. Os nad ydych yn bodloni eu meini prawf ar gyfer cymhwyster nid oes gennych hawl i apelio yn erbyn eu penderfyniad.

5 FFOTOGRAFFAU

Mae'r Bathodyn Glas yn gerdyn â dwy ochr iddo sydd â lle i roi ffotograff o'r deiliad ar ei gefn. O ganlyniad dylech anfon dau ffotograff eithaf diweddar gyda'ch cais, a dylech lofnodi cefn y ddau ffotograff. Gallwch anfon dau ffotograff pasport a gafodd eu tynnu mewn bwth hunan-wasanaeth neu unrhyw ffotograffau addas eraill wedi'u torri i faint llun pasport.

6 BLE NAD YW'R CYNLLUN YN GWEITHREDU

- Nid yw'r cynllun yn gweithredu ar ffyrdd preifat.
- Nid yw'r Cynllun yn gweithredu mewn meysydd parcio oddi ar y stryd. Er hynny, gallai rhai ohonynt ddarparu llefydd penodol ar gyfer pobl anabl. Dylech edrych ar yr arwyddion i weld pa gonsesiynau sydd ar gael, ac os oes yn rhaid i ddeiliaid Bathodyn Glas dalu. Cofiwch arddangos eich Bathodyn Glas bob tro y byddwch yn defnyddio un o'r llefydd hyn mewn meysydd parcio.

- Nid yw'r cynllun yn gweithredu yng nghanol rhai trefi, lle gwaherddir mynediad i gerbydau neu pan fo mynediad yn gyfyngedig i gerbydau sy'n meddu ar drwydded arbennig sy'n cael ei rhoi yn lleol.
- Nid yw'r cynllun yn gweithredu yng Nghanol Llundain, ond mae rhai cyfleusterau ar gael (gweler adrannau 7 ac 8).
- Nid yw'r Cynllun yn gweithredu ar systemau ffyrdd mewn rhai meysydd awyr (er enghraifft yn Heathrow, Gatwick a Manceinion). Dylech gysylltu â'r maes awyr ymlaen llaw er mwyn holi beth yw eu trefniadau parcio.

7 CANOL LLUNDAIN

- Nid yw'r Cynllun yn gweithredu yn yr ardaloedd canlynol yng Nghanol Llundain – Dinas Llundain, Dinas Westminster, Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea a'r rhan o Fwrdeistref Camden, o fewn terfynau ffin y bwrdeistref a chan ei gynnwys, Euston Road, Upper Woburn Place, Tavistock Square, Woburn Place, Russell Square, Southampton Road, Theobalds Road a Clerkenwell Road.
- Maent hefyd yn cynnig ystod cyfyngedig o gonsesiynau i bobl anabl eraill. Yn gyffredinol, yr hyn a gynigir yw llefydd parcio a neilltuir ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas, a rhyw ffurf ar gonsesiwn wrth barcio ger mesuryddion parcio yn Westminster ac yn Kensington a Chelsea, wedi i'r cyfnod parcio cychwynnol gael ei dalu amdano.
- Os ydych yn bwriadu ymweld â Chanol Llundain ac yn bwriadu defnyddio'ch bathodyn yno fe'ch cynghorir i gysylltu â'r awdurdodau priodol ymlaen llaw. Gallwch dderbyn manylion ynghylch y consesiynau sydd ar gael ymhob ardal drwy gysylltu â:


Corporation of London
Parking Services
Department of Technical Services
Corporation of London
PO Box 270
Guild Hall, London EC2P 2ET
Ffôn: 020-7332 3399

Kensington & Chelsea
Information Office
Parking Shop
19-27 Young Street
London W8 5EH
Ffôn: 020-7361 4258

Camden
Disabled Permits Section
PO Box 20219
London NW1 1WS
Ffôn: 020-7681 4655

Westminster
Disabled Parking Office
PO Box 6100
London SW1P 1FG
Ffôn: 020-7641 5123

Os hoffech fwy o wybodaeth ynghylch cyfleusterau parcio yn Llundain ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas gallwch gysylltu â Phwyllgor Trafnidiaeth Llundain ar 020-7747 4700.



8 LLWYBRAU COCH

- Llwybrau coch yw'r prif ffyrdd yn Llundain Fwyaf lle na chaniateir i gerbydau stopio (ar gyfer parcio na llwytho), eithr ar adegau penodol o'r dydd ac mewn manau penodol. Mae rhai o'r llefydd hyn wedi eu neilltuo ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas, ond dylech bob amser edrych ar yr arwyddion i weld pa gonsesiynau sydd ar gael. Mae'n bosibl y gall cerbyd sydd

â Bathodyn Glas stopio, ond dim ond er mwyn i ddeiliad y bathodyn fynd i mewn i'r car neu ei adael.

- Mae gan Drafnidiaeth Llundain wybodaeth gyffredinol am y consesiynau sydd ar gael i ddeiliaid Bathodyn Glas ar ffordd lle mae rheolau Llwybrau Coch mewn grym. Gellir derbyn y wybodaeth hon drwy ffonio 020 7941 2010.

9 BLE I BARCIO

Manteision Parcio	Amodau
Gall deiliaid bathodyn barcio am ddim ac am gyfnod amhenodol wrth fesuryddion parcio ar y stryd, ac mewn ardaloedd parcio "talau ac arddangos" ar y stryd - ac eithrio pan fo gorchymyn parcio lleol mewn grym yn yr ardal, yn nodi amser penodol ar gyfer deiliaid Bathodyn parcio i bobl anabl.	Rhaid arddangos y Bathodyn Glas.
Gall deiliaid bathodyn fod wedi eu heithrio rhag y cyfyngiadau amser sy'n berthnasol i ddefnyddwyr eraill. (Edrychwch ar yr arwyddion lleol i gael gwybodaeth.)	Rhaid arddangos y Bathodyn Glas.
Fel arfer gall deiliaid Bathodyn barcio ar linell felen unigol neu ddwbl am hyd at dair awr yng Nghymru a Lloegr, ac am gyfnod amhenodol yn yr Alban ac eithrio pan fo gwaharddiad ar lwytho a dadlwytho, ac mewn rhai mannau lle mae cynlluniau lleol mewn grym e.e. yr ardal yng Nghanol Llundain a ddangosir mewn glas golau ar y map yn adran 7.	Rhaid arddangos y Bathodyn Glas, ac yng Nghymru a Lloegr rhaid arddangos y disg parcio glas arbennig yn ogystal, gan ddangos eich amser cyrraedd. Rhaid i gerbyd adael cyfnod o o leiaf awr ers y cyfnod blaenorol o barcio cyn y gall barcio ar yr un ffordd neu ran o'r ffordd ar yr un diwrnod.


OS BYDD UNRHYW AMHEUAETH DYLECH ARDDANGOS Y DISG PARCIO (gweler Adran 12).

10 BLE NA DDYLECH BARCIO


Nid trwydded i barcio yn unrhyw le y mynnwch yw'r Bathodyn Glas. Rhaid i chi BEIDIO â pharcio:

- yn ystod cyfnod pan na chaniateir llwytho a dadlwytho (nodir yr amseroedd ar arwyddion ar bostiau, a nodir y lleoliad dan sylw gan un neu ddwy o linellau melyn ar ymyl y palmant).

Er enghraifft:



Dim llwytho ar unrhyw adeg



Dim llwytho
Llun - Gwener
8.00 - 9.30 am
4.30 - 6.30 pm



Gwaharddiad rhag llwytho 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, am o leiaf 4 mis yn olynol.

Gwahardd llwytho am unrhyw gyfnod byrrach. Mae'r saeth yn dangos i ba gyfeiriad y mae'r gwaharddiad yn cychwyn.

Serch hynny, gall cyfyngiadau o ran llwytho a dadlwytho fod mewn grym mewn mannau cerddwyr hyd yn oed os nad oes llinellau melyn ar y ffordd neu ar ymyl y palmant. Bydd manylion am unrhyw gyfyngiadau sydd mewn grym i'w gweld ar arwyddion ar ochr y palmant i'r ffordd.

- pan fo llinellau gwyn dwbl ar ganol y ffordd, hyd yn oed os yw un o'r llinellau'n doredig
- ar lôn fysiau neu dramiau yn ystod ei horiau gweithredu
- ar lôn feiciau
- ar unrhyw lôn glir, llinellau coch sengl neu ddwbl yn ystod oriau'r cyfyngiad
- ar bob croesfan cerddwyr - gan gynnwys croesfan Sebra, Pelican, Dwcan a Phâl

- ar y marciau igam-ogam cyn ac ar ôl y croesfannau Sebra, Pelican, Dwcan a Phâl
- mewn llefydd parcio a gedwir ar gyfer defnyddwyr arbennig e.e. deiliaid trwyddedau yn unig, manau llwytho, tacsis, beiciau
- mewn llefydd parcio ar gyfer trigolion, oni bai bod arwyddion yn dweud y gallwch barcio yno, neu eich bod wedi cysylltu ag Adran Briffyrdd yr awdurdod lleol i sicrhau ei bod yn iawn i chi barcio yno
- mewn manau parcio lle mae'r mesurydd wedi ei atal neu pan waherddir defnyddio'r mesurydd
- pan fo cyfyngiadau parcio dros dro mewn grym ar ddarn o ffordd e.e. manau lle ceir conau "dim aros"
- ar farciau "cadwch yn glir" o flaen ysgol yn ystod yr oriau a nodir ar arwydd melyn dim stopio.

Rhaid i chi BEIDIO â pharcio ychwaith lle byddai hynny'n creu rhwystr neu berygl i eraill. Dyma enghreifftiau tebygol:

- wrth fynedfa ysgol, safleoedd bysiau, ar dro yn y ffordd ger copa bryn neu bont grom
- lle byddai'n ei gwneud yn anodd i eraill weld yn glir e.e. yn agos at gyffordd
- lle byddai'n gwneud y ffordd yn gul e.e. gyferbyn ag ynys draffig neu lle gwneir gwaith ffordd
- lle byddai'n arafu llif traffig e.e. ar ddarnau cul o ffordd neu o flaen mynedfeydd cerbydau
- lle mae cerbydau argyfwng yn stopio neu'n mynd i mewn ac allan e.e. mynedfeydd ysbyty
- lle mae ymyl palmant wedi ei ostwng neu lle mae ffordd yn codi er mwyn creu man hwylus i gerddwyr groesi
- ar balmant, oni bai bod arwyddion yn caniatáu hynny.

COFIWCH

- **Os byddwch yn parcio mewn lle a fyddai'n creu rhwystr neu berygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd gallai'r heddlu fynd â'ch cerbyd oddi yno. Gallech hefyd gael eich erlyn a cholli eich bathodyn.**
- **Nid yw'n gyfreithlon i glampio olwynion cerbyd ar y briffordd gyhoeddus am dorri rheoliadau parcio os oes Bathodyn Glas dilys wedi'i arddangos yn briodol arno. Serch hynny, dylech fod yn ymwybodol y gallai olwynion eich cerbyd gael eu clampio os byddwch yn parcio'n amhriodol ar dir preifat.**
- **Rhaid symud y cerbyd os bydd heddwes neu warden traffig mewn lifrai yn gofyn i chi wneud hynny.**

11 SUT I DDEFNYDDIO'R BATHODYN

- **Rhaid i chi arddangos** y bathodyn ar silff y ffenestr flaen neu ar banel offer y cerbyd, gydag ochr flaen y bathodyn (h.y. yr ochr â symbol defnyddiwr cadair olwyn arni) yn wynebu am allan fel y gellir gweld y manylion priodol o'r tu allan i'r cerbyd pan fyddwch yn defnyddio'r manteision parcio. Os nad oes silff na phanel offer yn nhu blaen y cerbyd, rhaid i chi arddangos y bathodyn mewn man amlwg ar y cerbyd fel y gellir gweld y manylion priodol yn glir o'r tu allan pan fyddwch yn defnyddio'r manteision parcio.
- **Ni ddylid ond arddangos y bathodyn pan fyddwch chi'n defnyddio'r manteision parcio sydd ynghlwm wrth y Cynllun, oni bai bod y cerbyd yn cael ei yrru gan rywun arall heblaw deiliad y bathodyn at ddiben gadael neu fynd i mewn i ardal arbennig (nad yw ond cerbydau sy'n arddangos Bathodyn Glas yn gallu mynd iddi) er mwyn codi neu adael deiliad y bathodyn yno (gweler adran 15).**
- Ni ddylai aelodau nad ydynt yn anabl o sefydliadau sy'n gofalu am bobl anabl ac sy'n derbyn bathodynnau cyffelyb yn rhinwedd eu swyddogaeth eu defnyddio er eu budd eu hunain. Ni ddylid arddangos y bathodynnau hyn eithr pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio er budd pobl anabl.

- **Nid yw'r bathodynau ond yn ddilys am dair blynedd. Bydd angen i chi gyflwyno cais i'r awdurdod dosbarthu am ailasesiad rai wythnosau cyn i'ch bathodyn presennol ddod i ben.**
- Mae'n **rhaidd** i chi ddychwelyd y bathodyn i'r awdurdod dosbarthu os na fydd arnoch ei angen mwyach.

12 SUT I DDEFNYDDIO'R DISG PARCIO ARBENNIG

Yng Nghymru a Lloegr bydd angen disg parcio arnoch (y gallwch ei dderbyn oddi wrth yr awdurdod sy'n dosbarthu'r bathodyn) pan fyddwch yn parcio ar linellau melyn neu mewn lle parcio a gedwir ar gyfer deiliaid bathodynau sydd â chyfyngiad amser. Mae'n rhaid arddangos y disg bob tro y byddwch yn parcio a dangos eich amser cyrraedd. Dylai pobl anabl sy'n byw yn yr Alban ac sy'n bwriadu ymweld â Chymru neu Loegr allu cael y disg hwn oddi wrth eu Cyngor Lleol.



13 EICH DYLETSWYDDAU FEL DEILIAD BATHODYN

Diben y Cynllun yw eich galluogi **chi** i ymweld â siopau a mannau eraill. Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn defnyddio eich bathodyn yn ofalus ac yn unol â'r rheolau.

- **Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y bathodyn yn cael ei ddefnyddio'n briodol.** Mae'n bwysig, er eich lles eich hun, bod modurwyr eraill yn parhau i barchu'r bathodyn. Byddwch yn gyfrifol.
- **Rhaid i chi beidio â chaniatáu i bobl eraill ddefnyddio'r bathodyn.** Er mwyn ei gwneud yn llai posibl i hyn ddigwydd yn ddamweiniol, dylech dynnu'r bathodyn pan na fyddwch yn defnyddio'r manteision parcio ac eithrio o dan yr amgylchiadau a restrir ar ddiwedd adran 15.
- **Rhaid i chi sicrhau bod y manylion ar flaen y bathodyn yn parhau'n ddarllenadwy.** Os nad yw holl fanylion eich bathodyn i'w gweld yn glir, rhaid i chi ddychwelyd y bathodyn i'r awdurdod lleol er mwyn cael un arall yn ei le.
- **Ni ddylech ddefnyddio'r bathodyn er mwyn galluogi pobl nad ydynt yn anabl i fanteisio ar y consesiynau tra byddwch chi'n eistedd yn y car.** Er nad yw'n anghyfreithlon i ddeiliad bathodyn aros yn y cerbyd tra bo'r Bathodyn Glas yn cael ei arddangos, neu i berson nad yw'n anabl aros mewn car hyd nes y bydd deiliad y bathodyn yn dychwelyd, rhaid ystyried defnyddio maes parcio pryd bynnag y bo'n bosibl.

14 OS YDYCH CHI'N YRRWR ANABL

Cofiwch, os ydych chi'n yrrwr anabl a bod yr anabledd sydd gennych yn un a all effeithio ar eich gallu i yrru, neu ei fod yn debygol o wneud hynny ymhen amser (hyd yn oed os yw'r car wedi ei addasu), mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i chi hysbysu'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau, Abertawe SA99 1TU.

15 CAMDDEFNYDDIO BATHODYN

Mae camddefnyddio Bathodyn Glas yn dramgwydd troseddol difrifol.

- Gall eich bathodyn gael ei gymryd oddi arnoch os bydd yn cael ei gamddefnyddio neu os byddwch yn caniatáu i bobl eraill ei gamddefnyddio.
- Mae'n **dramgwydd troseddol** i bobl nad ydynt yn anabl ddefnyddio bathodyn. Os byddant yn gwneud hynny, gallant wynebu dirwy o hyd at £1,000.
- Mae'n **dramgwydd troseddol** i yrru cerbyd sy'n arddangos Bathodyn Glas oni bai bod deiliad y bathodyn yn y cerbyd, neu oni bai bod y cerbyd yn cael ei yrru gan rywun heblaw am ddeiliad y bathodyn at ddiben gadael neu fynd i mewn i ardal (nad yw ond cerbydau sy'n arddangos Bathodyn Glas yn gallu mynd iddi) er mwyn codi neu adael deiliad y bathodyn.

16 CAMDDEFNYDDIO ARDAL BARCIO I DDEILIAID BATHODYN GLAS

Gallai pobl nad ydynt yn anabl sy'n parcio mewn lle a neilltuir ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas wynebu dirwy barcio.

17 CONSESIYNAU ERAILL AR GYFER DEILIAID BATHODYN

- Mae awdurdodau lleol sawl ardal yn darparu llefydd parcio penodol ar gyfer deiliaid bathodynau. Dylech ddefnyddio'r llefydd parcio hyn pan fo'n bosibl, yn hytrach na pharcio ar linellau melyn. Gallai awdurdodau lleol gyfyngu ar yr amser y gellir parcio mewn llefydd o'r fath. Rhaid i chi arddangos bathodyn dilys bob tro y byddwch yn defnyddio'r llefydd parcio hyn. Rhaid i chi arddangos disg parcio yn ogystal os oes cyfyngiad amser.
- Mae rhai awdurdodau lleol yn caniatáu parcio yn rhad ac am ddim mewn meysydd parcio oddi ar y stryd. Fe'ch cynghorir i edrych ar yr arwyddion yn y maes parcio i weld a allwch barcio am ddim ac, os felly, ble.
- Nid oes yn rhaid i ddeiliaid bathodyn dalu tollau wrth groesi rhai afonydd. Gellir derbyn mwy o fanylion am y consesiynau hyn drwy gysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru, gweler y manylion yn adran 19. Mae manylion ar gael yn ogystal ar y we yn: www.mobility-unit.dft.gov.uk/index.htm#concessions
- Mae cyflwyno'r bathodyn glas Ewropeaidd yn galluogi'r deiliaid i fanteisio ar y consesiynau parcio cyfatebol sydd ar gael i yrwyr anabl ble bynnag y maent yn yr Undeb Ewropeaidd. Gellir cael manylion pellach ynghylch y manteision sydd ar gael drwy gysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

18 ARWYDDION TRAFFIG NEWYDD

Cyflwynodd Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002 a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2003 gynlluniau newydd ar gyfer arwyddion. Bydd yr holl arwyddion newydd neu'r arwyddion a godir yn lle hen rai ers y daeth y Rheoliadau hyn i rym yn cynnwys symbol y bathodyn glas. **Bydd arwyddion presennol â symbol y bathodyn oren arnynt yn parhau'n ddilys hyd Ionawr 2010.**

19 YMHOLIADAU CYFFREDINOL

Eich cyngor lleol sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r bathodyn glas.

Os oes gennych ymholiadau cyffredinol am y sefyllfa yng Nghymru cysylltwch â:

Y Tîm Teithio Cynaliadwy
Yr Is-Adran Polisi Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
neu ffoniwch 029 2082 6501

Os oes gennych ymholiadau ynghylch y sefyllfa yn Lloegr cysylltwch â:

Department for Transport
Disability Policy Branch
Mobility and Inclusion Unit
Zone 1/18, Great Minster House
76 Marsham Street
London
SW1P 4DR
neu ffoniwch 029 7944 2914

Os oes gennych ymholiadau ynghylch y sefyllfa yn yr Alban cysylltwch â:

Scottish Executive Development Department
Transport & Local Roads Division
Area 2E
Victoria Quay
Leith
Edinburgh
EH6 6QQ
neu ffoniwch 0131 244 0860 / 0131 244 0869